



**Passenger Focus
Cynllun Corfforaethol
2006 – 2009**

Cynllun Corfforaethol 2006 – 2009



Cynnwys

Adran		Tudalen
	Cyflwyniad y Cadeirydd	2
1	Ein Pwrpas	3
2	Pwy ydym ni a sut rydym wedi gosod ein strategaeth	4
3	Ein hamcanion	
3.1	Deall anghenion a phrofiadau teithwyr rheilffordd	6
3.2	Sicrhau gwelliannau cyffyrddadwy a mesuradwy i bob teithiwr rheilffordd	7
3.3	Grymuso teithwyr rheilffordd gyda gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth	8
3.4	Dylanwadu ar benderfyniadau mawr, tymor-hir sy'n effeithio ar deithwyr rheilffordd	9
3.5	Bod yn weladwy, yn hygyrch ac yn ddealladwy i deithwyr rheilffordd	10
4	Ymgysylltu â theithwyr rheilffordd a rhanddeiliaid a'u cynnwys	11
5	Gwybodaeth gyllidol	13
6	Gweithredu ein gweledigaeth a'n cenhadaeth	14
Atodiadau		
A	Dyletswydd statudol	15
B	Strwythur y sefydliad	16
C	Amserlen o weithgarwch dros dair blynedd	17
D	Mesurau a thargedau'r Cynllun Corfforaethol	18
E	Rhestr o ymgylgoreion ac ymatebwyr	20
	Sut i gysylltu â ni	22

Cynllun Corfforaethol 2006 – 2009



Cyflwyniad y Cadeirydd

Cenhadaeth Passenger Focus yw cael y ddêl orau i deithwyr rheilffordd Prydain. Er mwyn gwneud hyn, rydym wedi creu sefydliad cenedlaethol gyda dau brif amcan: dylanwadu ar benderfyniadau tymor-hir a thymor-byr fel ei gilydd a materion sy'n effeithio ar deithwyr a helpu teithwyr drwy eu cynghori, eiriolaeth a grymuso.

Rydym wedi gofyn i deithwyr am yr hyn mae arnynt ei eisiau, a chawn negeseuon clir yn ôl. Trenau'n cyrraedd mewn pryd yw'r flaenoriaeth gyntaf o hyd. Ond wrth i brydlondeb wella, mae sylw teithwyr yn symud i feysydd eraill, megis gwerth am arian a gorlenwi. Byddwn yn canolbwyntio ar wasgbwyntiau'r diwydiant, lle gellir cyflawni newidiadau arwyddocaol i deithwyr.

Mae deall pryderon teithwyr a'r teithiau maent yn eu cymryd yn hollbwysig. Mae'r Llywodraeth wedi gofyn i ni ymgymryd â'r Arolwg Teithwyr Cenedlaethol. Dyma'r darn o waith ymchwil mwyaf am deithwyr a gyhoeddwyd ym Mhrydain - mae mwy na 50,000 o deithwyr yn cymryd rhan ynddo bob blwyddyn, gan roi sylfaen gadarn amhrisiadwy am farn teithwyr i ni. Mae hefyd yn rhoi man cychwyn cryf i ni ar gyfer trafodaeth aeddfed gyda chwmnïau trê'n a Network Rail am wella gwasanaethau rheilffordd. Byddwn yn sicrhau bod ein rhaglen ymchwil hefyd yn ymgysylltu â phobl sy'n defnyddio'r rheilffyrdd ar gyfer busnes, sef grŵp y mae eu hanghenion heb eu cynrychioli'n ddigonol yn y gorffennol. Byddwn hefyd yn sicrhau bod ein holl ymchwil yn ystyried gallu pob teithiwr rheilffordd i ddefnyddio gwasanaethau.

Bydd ein ffordd o weithio hefyd yn bwysig. Rydym yn sefydliad ar gyfer Prydain gyfan, ac felly, bydd rhaid i ni sefydlu perthnasau gweithio cryf gyda'r Adran dros Drafnidiaeth, Gweithrediaeth yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrrff rhanbarthol. Conglfaen llwyddiant Passenger Focus fydd ei annibyniaeth. Mae'r Llywodraeth wedi datgan yn glir ei fod yn awyddus i Passenger Focus fod yn llais cyfrifol, annibynnol ac awdurdodol sy'n siarad o blaid teithwyr. Mae gennym gyllideb ddwy-flynedd a fydd yn caniatáu i ni gynllunio'n iawn. Mae strwythur y sefydliad yn darparu ar gyfer cymaint o hyblygrwydd, ymatebolrwydd a ffocws â phosibl. Mae'r Bwrdd yn fedrus, gyda phrofiad helaeth ac mae wedi tyfu i'w rôl yn ystod y misoedd diwethaf. Mae'r staff yn ymroddedig, yn ddiwyd ac yn alluog. Serch hynny, ni allwn lwyddo ar ein pennau ein hunain. Bydd rhaid i ni weithio mewn partneriaeth â sefydliadau teithwyr a sefydliadau'r diwydiant, megis London TravelWatch a fforymau eraill ar gyfer defnyddwyr cludiant teithwyr.

Dyma'n cynllun tair-blynedd cyntaf, ac mae'n nodi'r hyn a wnawn tan 2009. Rydym yn bwriadu ei adolygu'n flynyddol. Fe'i datblygwyd yn sgil trafodaeth fanwl â'r Bwrdd, ac mae'n seiliedig ar eu dyheadau i Passenger Focus. Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid allweddol ynghylch drafft o'r cynllun hwn. Gan ei fod bellach wedi'i gwblhau, bydd y cynllun yn darparu'r fframwaith ar gyfer y cynllun busnes blynyddol, a fydd yn manylu'r gweithgareddau yr ymgwymerir â hwy yn y flwyddyn gyfredol.

Rwyf yn falch iawn o fod yn gysylltiedig â geni sefydliad cenedlaethol newydd. Rwyf yn gwybod y gallwn wneud gwahaniaeth a helpu i sicrhau dêl well i deithwyr rheilffordd Prydain.

Colin Foxall CBE
Cadeirydd

Cynllun Corfforaethol 2006 – 2009



1. Ein pwrpas

Mae ein gweledigaeth, ein cenhadaeth, ein hamcanion a'r gwerthoedd wedi'u datblygu gan Fwrdd Passenger Focus i adlewyrchu eu dyheadau ar gyfer y sefydliad newydd, yn ogystal â'i ddyletswyddau statudol.

Ein gweledigaeth yw sicrhau bod y diwydiant rheilffordd a'r llywodraeth bob amser

yn rhoi teithwyr rheilffordd yn gyntaf

Cyflawnir hyn drwy ein cenhadaeth o

gael y ddêl orau i deithwyr rheilffordd

Dros y tair blynedd nesaf, caiff ein gwaith ei seilio ar y pum amcan canlynol, sy'n ategu'r weledigaeth a'r genhadaeth

1. deall anghenion a phrofiadau teithwyr rheilffordd
2. sicrhau gwelliannau cyffyrddadwy a mesuradwy i deithwyr rheilffordd
3. grymuso teithwyr rheilffordd gyda gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth
4. dylanwadu ar y prif benderfyniadau tymor-hir sy'n effeithio ar deithwyr rheilffordd
5. bod yn weladwy, yn hygyrch ac yn ddealladwy i deithwyr rheilffordd

Mae Adran tri yn rhoi mwy o fanylion ar gyfer pob un o'r amcanion hyn, yn ogystal â rhai o'r gweithgareddau yr ymgwymerir â hwy a'r targed(au) perfformiad allweddol a fydd yn dangos cyflawniadau.

Ein gwerthoedd

Er mwyn bod yn ddylanwadol a chael y ddêl orau i deithwyr rheilffordd, mae rhaid i ni sicrhau ein bod yn cael ein cydnabod am fod yn flaengar, yn rhagweithiol, yn alluogol ac yn flaenllaw. Dangosir hyn drwy ein pedwar gwerth craidd, sef

- **annibyniaeth** - byddwn yn ddiduedd, yn wrthrychol ac yn deg wrth ymgymryd â phob un o'n gweithgareddau
- **agoredrwydd** – byddwn yn hygyrch, yn gaffaeladwy, yn dryloyw ac yn groesawgar i deithwyr rheilffordd
- **ymdiriedaeth** – er mwyn bod yn ddylanwadol, byddwn yn dangos ein bod yn barchus, yn wybodus ac yn gredadwy
- **ymgysylltu** – er mwyn ymgyrchu a lobïo dros newidiadau, byddwn yn dangos ein bod yn gwrandao ar deithwyr rheilffordd a rhanddeiliaid eraill, yn eu deall ac yn ymateb iddynt

Cynllun Corfforaethol 2006 – 2009



2. Pwy ydym ni a sut rydym yn gosod ein strategaeth

Passenger Focus yw enw gweithredu'r Cyngor Teithwyr Rheilffordd. Nyni yw'r sefydliad annibynnol i ddefnyddwyr rheilffordd ledled Prydain. Fe'n ffurfiwyd ar 24 Gorffennaf 2005 o dan Ddeddf y Rheilffyrdd 2005, yn sgil diddymu'r Pwyllgorau Teithwyr Rheilffordd Rhanbarthol a'r Cyngor Teithwyr Rheilffordd Cenedlaethol cynt. Yr Adran dros Drafnidiaeth sydd yn ein noddi.

Mae rhychwant a chymhlethdod y materion sy'n wynebu teithwyr yn sylweddol, ond rydym yn sefydliad cymharol fach. I wneud gwahaniaeth a chael y ddêl orau i deithwyr rheilffordd, bydd rhaid inni ddewis sut rydym yn defnyddio'n hadnoddau. Bydd ffocysu ar nifer o faterion allweddol a mynd i'r afael â hwy yn sicrhau bod gennym gyfle gwell i lwyddo. Byddwn yn gweithio i gyflawni ein cenhadaeth mewn dwy brif ffordd:

- Troi gwybodaeth a manylion am faterion teithwyr yn negeseuon clir i'r llywodraeth, y diwydiant rheilffordd a rhanddeiliaid eraill. Byddwn yn gweithredu'n agored ac yn cyhoeddi cymaint o'n hymchwil a gwybodaeth ag y gallwn. Y prif weithgareddau fydd ymchwil; codi proffil blaenoriaethau teithwyr; gweithio gyda chwmnïau trên a rhanddeiliaid eraill ar faterion a godir gan deithwyr a hwyluso gweithredu dros deithwyr ymhlith y sefydliadau gwahanol sy'n gysylltiedig â'r diwydiant rheilffordd.
- Helpu teithwyr a grwpiau teithwyr i helpu eu hunain. I wneud hyn, bydd rhaid inni fod yn hygyrch. Y prif weithgareddau fydd cyhoeddi cyngor i deithwyr; gweithio gyda grwpiau a phaneli teithwyr i wella eu gallu i helpu teithwyr; a chyflafareddu cwynion teithwyr nad ydynt wedi'u datrys gan gwmnïau trên.

Ein blaenoriaethau a sut rydym yn eu gosod

Rydym wedi datblygu nifer o gwestiynau i'n helpu i flaenoriaethu'r materion y dylem ganolbwyntio arnynt:

- a yw'r mater yn dod dan ein cylch gwaith?
- a yw'r mater o bryder uniongyrchol i deithwyr rheilffordd?
- faint o deithwyr yr effeithir arnynt?
- a fydd datrys y mater yn gwella'r gwasanaeth?
- a fydd datrys y mater yn cyflawni gwelliannau arwyddocaol i brofiad teithwyr?
- a yw'r adnoddau gennym i ddelio â'r mater?
- a ydym yn y sefyllfa orau i ffocysu ar y pwnc?

Ffocws tymor-hir

Mae newidiadau pwysig yn cymryd amser hir i'w cyflawni yn y diwydiant rheilffordd. Mae dylanwadu ar y penderfyniadau mawr, tymor-hir yn hollbwysig i sicrhau ein bod yn cael y ddêl orau i deithwyr rheilffordd. Mae gweithredu'r cwestiynau uchod wedi ein harwain i danlinellu pedwar prif haen gwaith yn y tymor hir, wedi'u seilio ar ddau brif thema, sef gwerth am arian a gorlwytho.

Cynllun Corfforaethol 2006 – 2009

- **Strategaethau Defnyddio Llwybrau**

Mae prydlondeb ac amlder gwasanaethau a gorlwytho yn bryderon allweddol i deithwyr. Strategaethau Defnyddio Llwybrau (RUS) Network Rail fydd y broses a ddefnyddir i wneud penderfyniadau hanfodol sy'n effeithio ar deithwyr fesul llwybr. Byddwn yn cyfrannu i ddatblygiad yr holl strategaethau hyn wrth iddynt godi.

- **Masnachfreinio**

Mae safon a lefel gwasanaethau rheilffordd a gynigir gan gwmnïau trên yn hanfodol i brofiad dyddiol teithwyr. Mae rhaglen fasnachfreinio'r Adran dros Drafnidiaeth yn gosod y fframwaith ar gyfer yr hyn y bydd pob cwmni trên yn ei gynnig i deithwyr. Caiff tua phedwar masnachfaint eu newid bob blwyddyn, a byddwn yn cymryd rhan pan adnewyddir pob masnachfaint er mwyn ceisio sicrhau gwelliannau mewn lefelau gwasanaethau i deithwyr.

- **Costau teithio**

Mae gwerth am arian yn parhau i fod yn bryder i deithwyr. Erbyn haf 2006, disgwylir i'r Llywodraeth wneud penderfyniadau am reoleiddio costau teithio. Mae gallu llawer o deithwyr i fforddio tocynnau ar gyfer teithio pellter mawr y maent yn eu prynu ar yr un diwrnod yn cael ei erydu. Ein bwriad yw dylanwadu ar bolisi'r llywodraeth ynglŷn â chostau teithio.

- **Buddsoddi**

Bydd rhaid i fuddsoddi tymor-hir yn y rheilffyrdd barhau. Bydd Manylebau Allbwn Lefel Uwch yr Adran dros Drafnidiaeth a Gweithrediaeth yr Alban yn gosod y fframwaith bras ar gyfer yr hyn y dymunant fuddsoddi ynddo, a'r hyn y maent am ei gyflawni am flynyddoedd i ddod. Ein bwriad yw dylanwadu ar y rhain i sicrhau bod blaenoriaethau teithwyr yn cael eu hystyried yn weithredol.

Ffocws tymor-byr i ganolig

Gwneir newidiadau mwy enbyd yn y diwydiant mewn tri phrif faes

- Gweithio gyda chwmnïau trên a Network Rail drwy ein rheolwyr cyswllt teithwyr i sicrhau gwelliannau wrth ddarparu gwasanaethau
- Cyhoeddi cyngor i ddefnyddwyr ar faterion teithwyr fel dod o hyd i'r tocyn mwyaf priodol a helpu teithwyr i gael gwerth gwell am arian o deithio ar y trên
- Gweithio mewn partneriaeth â grwpiau teithwyr i sicrhau newidiadau. Bydd hyn hefyd yn cynnwys helpu'r grwpiau hyn i hyrwyddo blaenoriaethau a lles teithwyr.

Mae canolbwyntio ar y meysydd allweddol hyn a chaniatáu amser i ymateb i ddatblygiadau yn y diwydiant a'r llywodraeth yn defnyddio'r rhan fwyaf o'n hadnoddau.

Cynllun Corfforaethol 2006 – 2009



3. Ein Hamcanion

3.1 Deall anghenion a phrofiadau teithwyr rheilffordd

Mae ein hymchwil ein hunain a ffynonellau eraill o wybodaeth yn rhoi tystiolaeth i ni sicrhau ein bod yn lleisio barn teithwyr yn awdurdodol. Byddwn yn nodi bylchau yn ein gwybodaeth ac yn mynd i'r afael â hwy, gan ddarparu sail dystiolaeth gynhwysfawr i ategu ein gwaith polisi ar flaenoriaethau teithwyr.

Dadansoddir yr holl wybodaeth a gesglir ac fe'i defnyddir fel y sail ar gyfer gwella gwasanaethau ar gyfer teithwyr rheilffordd drwy ddylanwadu ar y diwydiant rheilffordd a'r llywodraeth a gweithio gyda hwy. Bydd ymchwil hefyd yn ein helpu i fireinio amcanion gweithredol, monitro perfformiad, gwerthuso canlyniadau ac ailddiffinio'n cyfeiriad strategol.

Byddwn yn

- ymgymryd â'r Arolwg Teithwyr Cenedlaethol a chyhoeddi'r canlyniadau ddwywaith y flwyddyn
- adolygu manyleb yr Arolwg Teithwyr Cenedlaethol ac ymgynghori â rhanddeiliaid, gan gynnwys yr Adran dros Drafnidiaeth, cyn tendro am gontract newydd
- sefydlu Grŵp Cyngori Rhanddeiliaid yr Arolwg Teithwyr Cenedlaethol
- darparu mynediad ar-lein i ganlyniadau'r Arolwg teithwyr Cenedlaethol
- adrodd y casgliadau i'r rhain sy'n gysylltiedig â'r Arolwg Teithwyr Cenedlaethol
- datblygu cynllun ymchwilio ac ymgynghori i sicrhau ein bod yn nodi meysydd allweddol ac yn mynd i'r afael â materion allweddol
- sicrhau bod ein holl ymchwil yn ystyried gallu pob teithiwr i ddefnyddio gwasanaethau trên
- ymgymryd ag ymchwil i ddeall anghenion grwpiau penodol o deithwyr, er enghraifft cymudwyr, defnyddwyr busnes a hamdden
- datblygu ystod o sianeli i ymofyn barn teithwyr rheilffordd – yn enwedig, er mwyn adeiladu rhwydwaith o deithwyr sy'n defnyddio pob cwmni trên, gan gynnwys cymysgedd o gymudwyr, defnyddwyr busnes a hamdden
- gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid perthnasol eraill i ymgymryd ag ymchwil penodol sydd wedi'i dargedu
- deall blaenoriaethau teithwyr yn ôl llwybr ac/neu sector

Targedau allweddol

- ymgynghori â 50,000 o deithwyr drwy'r Arolwg Teithwyr Cenedlaethol bob blwyddyn, a chyhoeddi'r canlyniadau ddwywaith y flwyddyn, ym mis Ionawr a mis Gorffennaf
- ymgymryd â phrosiectau ymchwil sydd wedi'u targedu i ategu blaenoriaethau'r sefydliad
- ymgysylltu ag o leiaf 20,000 o deithwyr bob blwyddyn drwy ymgynghori a gweithgareddau eraill

Cynllun Corfforaethol 2006 – 2009



3.2 Sicrhau gwelliannau cyffyrddadwy a mesuradwy i deithwyr rheilffordd

Rydym ond yn gallu cyflawni gwelliannau cyffyrddadwy i deithwyr rheilffordd drwy weithio mewn partneriaeth â'r Llywodraeth, cwmnïau trên a rhanddeiliaid eraill. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a'r manylion a gesglir o ymchwil a drwy ymgynghori â theithwyr i godi materion gyda chwmnïau trên a rhanddeiliaid eraill, gan ganolbwyntio ar welliannau penodol yn y gwasanaeth i gwsmeriaid.

Bydd ein hymateb i unrhyw newidiadau arfaethedig yn y gwasanaeth yn seiliedig ar flaenoriaethau teithwyr, drwy asesu'r effaith ar deithwyr rheilffordd.

Byddwn yn

- gweithio i sicrhau gwelliannau yn y gwasanaeth, gan gynnwys integreiddio'r rheilffyrdd gyda dulliau trafndiaeth eraill, drwy amlygu materion i deithwyr o'r Arolwg Teithwyr Cenedlaethol ac ymchwil a gwybodaeth arall
- gweithio gyda chwmnïau trên a rhanddeiliaid eraill i sefydlu cynlluniau gweithredu a'u rhoi ar waith er mwyn mynd i'r afael â materion
- datblygu perthynas gweithio cryf gyda'r Adran dros Drafndiaeth, Gweithrediaeth yr Alban, y Cynulliad Cenedlaethol, Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd, asiantaethau datblygu rhanbarthol, cynulliadau rhanbarthol, Network Rail a chwmnïau trên

Targed allweddol

- cyflawni o leiaf 100 o welliannau mesuradwy i deithwyr.

Cynllun Corfforaethol 2006 – 2009



3.3 Grymuso teithwyr rheilffordd gyda gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth

Rydym yn darparu gwybodaeth a chyngor diduedd yn rhad ac am ddim, ac rydym yn codi apeliadau gan deithwyr rheilffordd sydd wedi methu â datrys cwynion yn uniongyrchol gyda'r cwmnïau trên. Rydym yn helpu teithwyr rheilffordd i ddeall eu hawliau, a, thrwy ein cyngor, i wneud penderfyniadau cytbwys ac i weithredu'n briodol.

Byddwn yn

- datblygu a chyhoeddi gwybodaeth a manylion clir, cynhwysfawr a defnyddiol i deithwyr
- gweithio gyda grwpiau teithwyr eraill i wella eu gallu i helpu teithwyr
- datblygu amrywiaeth o ddulliau i rymuso teithwyr rheilffordd
- parhau i wella ein gwasanaeth apelio yn erbyn cwynion
- argymhell lle y gellir gwella polisïau cwyno a Siartrau Teithwyr ar gyfer rhyddfrefiniau rheilffordd newydd.

Targedau allweddol

- cynyddu'n flynyddol ganran y teithwyr sy'n fodlon ar y ffordd y mae Passenger Focus yn delio â chwynion
- cynyddu'n flynyddol ganran y teithwyr sy'n fodlon ar y gwasanaeth y mae Passenger Focus yn ei ddarparu

Cynllun Corfforaethol 2006 – 2009



3.4 Dylanwadu ar benderfyniadau mawr, tymor-hir sy'n effeithio ar deithwyr rheilffordd

Mae ein cyffyrddiad â'r Llywodraeth, y Senedd, Gweithrediaeth yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, rheiddiolwyr, gwneuthurwyr polisi a'r diwydiant yn rhoi'r cyfle i ni gynrychioli lles teithwyr rheilffordd yn uniongyrchol, ac asesu cyfleoedd a bygythiadau newydd. Bydd rhaid inni fod mewn sefyllfa i ddylanwadu ar drafodaeth a phenderfyniadau ynghylch dyfodol strategaeth y rheilffyrdd. Er enghraifft, mae gwaith sefydlu Asiantaeth Trafnidiaeth Genedlaethol gan Weithrediaeth yr Alban a'r Partneriaethau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnig cyfleoedd i sicrhau gwelliannau sylweddol ar gyfer teithwyr rheilffordd wrth iddynt ddatblygu eu strategaethau trafndiaeth ar gyfer y tymor hir.

Byddwn yn datblygu Passenger Focus fel llais i deithwyr rheilffordd gyda phresenoldeb sylweddol yn y diwydiant a dylanwad sylweddol arno. Byddwn yn canolbwyntio ar nifer o faterion allweddol, wedi'u cysylltu â blaenoriaethau teithwyr, er mwyn i ni allu gwneud gwahaniaeth i'r nifer fwyaf o deithwyr.

I'n cynorthwyo wrth asesu ein heffeithlondeb, rydym yn bwriadu cyflwyno arolwg o randdeiliaid i fesur llwyddiant a chanlyniadau ein gwaith yn y maes hwn.

Byddwn yn

- ymwneud â llywio'r Manylebau Allbwn Lefel Uwch (sef 'glasbrint a gweledigaeth yr Adran dros Drafnidiaeth a Gweithrediaeth yr Alban ar gyfer y rheilffyrdd) er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau a phryderon teithwyr yn cael eu hamlygu fel rhan o'r rhaglen gyllido gyhoeddus ar gyfer y rheilffyrdd
- gweithio i ddeall barn teithwyr er mwyn dylanwadu ar Strategaethau Defnyddio Llwybrau (RUS) a'r broses ail-fasnachfreintio
- sicrhau bod anghenion teithwyr yn cael eu hasesu ochr yn ochr â gofynion buddsoddi pan fydd y Llywodraeth a'r diwydiant rheilffordd yn datblygu polisiâu ynglŷn â chostau teithio
- sicrhau bod barn teithwyr yn cael ei hystyried fel rhan o'r broses newid ar gyfer trenau cyflym (HST)
- ymgyrchu a lobïo mewn digwyddiadau cenedlaethol a rhanbarthol i godi proffil blaenoriaethau teithwyr, gan gynnwys rhoi tystiolaeth gerbron pwyllgorau dethol; ymgysylltu ag Aelodau Seneddol, Aelodau o Senedd yr Alban ac Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru; siarad am faterion teithwyr mewn cynadleddau a digwyddiadau eraill
- ymateb i newidiadau arfaethedig yn amodau trwydded ar gyfer cwmnïau trên a rhanddeiliaid eraill sy'n cael effaith uniongyrchol ar deithwyr.

Targed allweddol

- gwella'n gynyddol y ffordd y mae rhanddeiliaid yn canfod dylanwad Passenger Focus ar gael 'y ddêl orau i deithwyr trên'.

Cynllun Corfforaethol 2006 – 2009



3.5 Bod yn weladwy, yn hygyrch ac yn ddealladwy i deithwyr rheilffordd

Mae'n rhaid i sefydliad effeithiol i ddefnyddwyr gael proffil a chael ei gydnabod gan y bobl y mae'n eu cynrychioli. Yn debyg, er mwyn bod yn ddylanwadol wrth godi materion teithwyr, mae angen i ni godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'n rôl er mwyn i randdeiliaid a theithwyr ddeall ein pwrpas.

Byddwn yn:

- gwella mynediad i Passenger Focus ar gyfer teithwyr
- ymateb i gyfleodd i godi materion teithwyr yn y cyfryngau a gweithio'n rhagweithiol i wneud hynny
- gwella enw da, proffil a chredadwyaeth gwaith Passenger Focus gyda rhanddeiliaid
- hybu gwefan Passenger Focus fel ffynhonnell wybodaeth allweddol
- sicrhau y cyhoeddir erthyglau Passenger Focus yng nghylchgrawn teithwyr bob cwmni trên
- cyhoeddi bwletinâu chwarterol i randdeiliaid
- arolygu ymwybyddiaeth teithwyr am Passenger Focus
- cynnal o leiaf dau gyfarfod cyhoeddus y flwyddyn

Targed allweddol

- i deithwyr fod o'r farn ei bod yn hawdd cysylltu â Passenger Focus a dod o hyd i wybodaeth amdano

Cynllun Corfforaethol 2006 – 2009



4. Ymgysylltu â theithwyr rheilffordd a rhanddeiliaid a'u cynnwys

Un o nodweddion allweddol y sefydliad newydd fydd ein gwaith grymuso effeithiol â theithwyr er mwyn iddynt ddod yn gysylltiedig â'n gwaith mewn sawl ffordd.

Bydd yn gwneud hyn drwy

- ymgymryd â'r Arolwg Teithwyr Cenedlaethol
- gweithio drwy'r rheolwyr cyswllt teithwyr, er mwyn cael presenoldeb lleol a rhanbarthol ymgysylltu ag unigolion a grwpiau o deithwyr
- ymchwilio ac ymgynghori ar faterion penodol

Yr Arolwg Teithwyr Cenedlaethol

Mae'r Arolwg Teithwyr Cenedlaethol yn darparu cipolwg ledled Prydain o fodlondeb teithwyr ar deithio ar y trênn. Cesglir barn teithwyr ynghylch 31 agwedd ar y gwasanaeth ddwywaith y flwyddyn o sampl gynrychioliadol o deithiau gan deithwyr. Cynhelir yr arolwg dros y rheilffordd gyfan sydd wedi'i masnachfreinio, gyda thua 50,000 o holiaduron wedi'u cwblhau'n cael eu dychwelyd bob blwyddyn.

Rhennir y canlyniadau gyda chwmnïau trênn, Network Rail, Heddlu Trafnidiaeth Prydain, a darperir adroddiadau arbennig i sefydliadau eraill. Cyhoeddir y canlyniadau lefel-uwch ar ein gwefan, hefyd.

Mae canlyniadau'r Arolwg Teithwyr Cenedlaethol yn darparu dangosydd bodlondeb cwsmeriaid ar eu taith yn gyffredinol ac ar agweddau penodol, gan gynnwys, ymhlith eraill, prydlondeb, dibynadwyedd, diogelwch, diogelwch personol, glendid trenau a gorsafoedd, darparu gwybodaeth, parcio ceir, cyfleusterau, arlwyyo, staff, cwynion, prynu tocynnau, a chynnal a chadw a thrwsio.

Wrth edrych ymlaen, rydym wedi sefydlu bwrdd cynghori rhanddeiliaid gyda chynrychiolaeth eang i lywio unrhyw newidiadau yng nghwmpas neu fethodoleg yr arolwg. Yn benodol, bydd y grŵp hwn cyfrannu i fanyleb yr arolwg pan gaiff ei ail-dendro. Bydd y grŵp hefyd yn helpu i nodi blaenoriaethau ar gyfer ymchwil manwl pellach er mwyn gwybod rhagor am ganlyniadau'r Arolwg Teithwyr Cenedlaethol a meithrin dealltwriaeth ohonynt.

Rheolwyr cyswllt teithwyr

Bydd ein rheolwyr cyswllt teithwyr yn gweithio i ddylanwadu ar welliannau mewn gwasanaethau gyda chwmnïau trênn a Network Rail. Maent yn gweithio'n gyflin â chwmnïau trênn unigol a diben eu rôl yw

- nodi anghenion a phryderon teithwyr drwy gysylltu â grwpiau teithwyr a rhanddeiliaid i
- gweithio'n agos gyda chwmnïau trênn i ddylanwadu ar welliannau mewn gwasanaethau sy'n seiliedig ar ymchwil ar deithwyr
- bod yn glust i wrando ar sylwadau cwmnïau trenau a'r diwydiant i fesur barnau cynrychiolwyr teithwyr
- datblygu rhwydwaith teithwyr a fydd yn cyfrannu at ein strategaethau
- gweithio fel llefarwyr i'r cyfryngau dros Passenger Focus

Cynllun Corfforaethol 2006 – 2009



- datblygu ac adeiladu perthnasau/cysylltiadau a phartneriaethau gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys llywodraeth leol, Awdurdodau Gweithredol ar gyfer Cludiant Cyhoeddus a chyrrff rhanbarthol
- darparu llif wybodaeth i'r broses benderfynu ar gyfer cynllunio'r rheilffyrdd.

Ymgysylltu ag unigolion a grwpiau o deithwyr

Byddwn yn sicrhau ein bod yn hygyrch i deithwyr sydd am gael cyngor a gwybodaeth. Mae ein gwefan gwsmer-ganolog newydd yn darparu ystod eang o nodweddion, gan gynnwys adran bwrpasol i deithwyr bostio'u profiadau o deithio ar y trên a chyfnwid barn â defnyddwyr eraill o'r rheilffordd. Bydd y wefan hefyd yn gymorth mawr wrth ymgysylltu â theithwyr unigol, gan ddefnyddio nodweddion rhyngweithiol i alluogi defnyddwyr i gymryd rhan mewn fforymau ac arolygon ar-lein. Caiff manylion y llinell gymorth genedlaethol ar gyfer teithwyr eu hysbysebu'n eang ar drenau ac mewn gorsafoedd er mwyn i deithwyr y mae angen iddynt gysylltu â ni yn gallu gwneud hynny'n rhwydd.

Byddwn yn ymgymryd ag amrywiaeth o ymgyrchoedd i hyrwyddo'r materion sy'n bwysig i deithwyr a byddwn yn datblygu cyngor i ddefnyddwyr sy'n seiliedig ar y materion hyn. Er mwyn sicrhau bod Passenger Focus yn weladwy i deithwyr, bydd nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus, gan gynnwys cyfarfodydd a 'chymorthfeydd' mewn gorsafoedd i ddarparu gwybodaeth a chyngor. Byddwn hefyd yn defnyddio'r cyfryngau i gyrraedd cynulleidfa ehangach.

Mae angen i ni gysylltu â'r gronfa eang o wybodaeth sy'n bodoli gan deithwyr rheilffordd cyffredin. Un o'r ffyrdd y gellir gwneud hyn yw drwy ddatblygu rhwydwaith o 'hyrwyddwyr teithwyr', a gofyn iddynt rannu eu profiadau a chyfrannu i grŵp ffocws cenedlaethol o farn teithwyr.

Ymchwil ac ymgynghori penodol

Bydd Passenger Focus yn nodi ac yn ymgymryd â phrosiectau ymchwil i lenwi bylchau mewn gwybodaeth. Gall hyn fod drwy weithio'n agos gyda grwpiau teithwyr, cyrrff cynrychioliadol, neu drwy ymgymryd â phrosiectau ymchwil rhyng-ddiwydiannol.

Bydd ymchwil sydd wedi'i gynllunio'n helpu ein dealltwriaeth o faterion teithwyr sy'n llwybr-benodol i roi gwybodaeth i'r prosesau defnyddio a masnachfreinio'r rheilffyrdd. Yn y flwyddyn sydd i ddod, gwelir gweithgarwch helaeth i roi gwybodaeth i'n barn ar bolisi costau teithio'r Llywodraeth.

Yn ogystal, mae nifer o grwpiau defnyddwyr rheilffordd a fforymau teithwyr rhanbarthol y mae Passenger Focus yn gallu gweithio mewn partneriaeth â hwy.


Cynllun Corfforaethol 2006 – 2009

5. Gwybodaeth gyllidol


Mae gan Passenger Focus gyllideb o £5.4 miliwn ar gyfer 2006-07 a £5.2 miliwn ar gyfer 2007-08, (gan gynnwys cyllid ar gyfer yr Arolwg Teithwyr Cenedlaethol) sy'n caniatáu i ni gynllunio sut y byddwn yn cyflawni'n cynllun corfforaethol. Mae'r siartiau sy'n dilyn yn dangos sut y dyrennir adnoddau yn ystod y cyfnod hwn, yn ôl ein hamcanion ac yn ôl swyddogaeth.

Mae costau staff, adeiladau, a gorbenion eraill, wedi'u rhannu ymysg yr amcanion. Byddwn yn parhau i adolygu'n barhaol sut y gallwn fod yn fwy effeithiol ac yn fwy effeithlon gyda'r adnoddau sydd gennym. Mae gennym 44 aelod o staff, sy'n gweithio mewn swyddfeydd yn Llundain a Manceinion, gyda 12 aelod o staff yn gweithio ac yn byw yn yr ardaloedd y mae'r cwmnïau trên yn darparu eu gwasanaethau.

Dyrannu adnoddau yn ôl amcan



Dyrannu adnoddau yn ôl swyddogaeth




Cynllun Corfforaethol 2006 – 2009

6. Gweithredu ein gweledigaeth a'n cenhadaeth

I gael y ddêl orau i deithwyr rheilffordd byddwn yn sicrhau bod ffocws y gweithgarwch yn cyd-fynd â'n gweledigaeth.

Mae'r diagram canlynol yn crynhoi sut mae hyn yn gysylltiedig, a sut y caiff ei weithredu.



Mae'r cynllun corfforaethol yn gosod allan sut y byddwn yn cyflawni hyn yn ystod y tair blynedd nesaf. Caiff y cynllun hwn ei droi'n gynllun gweithredol blynyddol, ac mai yn erbyn hwn y gosodir targedau penodol bob blwyddyn. Bydd y bwrdd yn monitro'r rhain, a chyhoeddir y cyflawniadau a'r canlyniadau yn ein hadroddiad blynyddol, yn yr haf bob blwyddyn.

Byddwn yn cyfranogi'n weithgar yn y Rhwydwaith Gweithredu Defnyddwyr, gan feincnodi ein hunain â sefydliadau defnyddwyr eraill, yn dysgu ganddynt ac yn rhannu arferion gorau.

Er mwyn cyflawni ein agenda hergar, byddwn yn sicrhau ein bod yn rheoli ein hadnoddau'n effeithiol.

Byddwn yn

- integreiddio cynllunio a chyllido'n well
- gweithredu fframwaith rheoli perfformiad, sy'n sicrhau bod y strategaeth gorfforol yn cyd-fynd ag amcanion busnes ac amcanion unigol
- gwella'r ffordd yr ydym yn rheoli ac yn datblygu'n staff, gan dargedu hyfforddiant ar sail anghenion unigolion, wedi'i gysylltu â'r cynllun busnes
- ymgymryd ag arolwg blynyddol ar ymagwedd staff
- sefydlu proses adrodd reolaidd am berfformiad yn erbyn y cynllun corfforaethol tair-blynedd a'r cynllun gweithredol blynyddol i'r bwrdd
- cymryd rhan yn weithgar yn y Rhwydwaith Gweithredu Defnyddwyr (Consumer Action Network), i feincnodi perfformiad.

Cynllun Corfforaethol 2006 – 2009



Atodiad A – Dyletswydd statudo

Cyngor Teithwyr Rheilffordd yw ein henw cyfreithiol, ac mai Deddf y Rheilffyrdd 2005 a Deddf y Rheilffyrdd 1993 fel y'u diwygiwyd gan Ddeddf Trafnidiaeth 2000 sy'n nodi ein dyletswyddau a'n pwerau. Rydym yn gweithredu dan enw *Passenger Focus*. Rydym yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol Gweithredol, a noddir gan yr Adran dros Drafnidiaeth.

Mae ein cyfrifoldebau statudol yn cynnwys y canlynol

- ymchwilio i unrhyw faterion sy'n ymwneud â darparu
 - gwasanaethau i deithwyr rheilffordd
 - gwasanaethau mewn gorsafoedd gan weithredwr gorsaf trwyddedig
- ymchwilio i gynrychiolaethau gan ddefnyddiwr y rheilffordd (gan gynnwys ymdrin â chwynion apêl teithwyr)
- cyfeirio unrhyw dor-cytundeb (neu unrhyw dor-cytundeb tebygol) masnachfrait neu drwydded teithwyr/gorsaf i'r Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffordd
- cyfeirio unrhyw fater sydd heb ei ddatrys mewn ffordd sy'n ein bodloni at yr Adran dros Drafnidiaeth
- adolygu unrhyw faterion sy'n effeithio ar les y cyhoedd mewn perthynas â gwasanaethau rheilffordd
- cydweithio â chyrrff eraill sy'n cynrychioli budd defnyddwyr gwasanaethau cludiant cyhoeddus
- cynhyrchu adroddiad blynyddol
- cynnal dau gyfarfod cyhoeddus bob blwyddyn.


I gael manylion llawn ynghylch y ddeddfwriaeth berthnasol, gweler www.legislation.hmso.gov.uk/acts

Cynllun Corfforaethol 2006 – 2009



Atodiad B – strwythur y sefydliad

Rydym wedi mabwysiadu fframwaith rheoli risg a chaiff risgiau eu monitro a'u hadrodd yn rheolaidd i'r pwyllgor archwilio, sy'n cyfarfod yn chwarterol.



Cynllun Corfforaethol 2006 – 2009

Atodiad C – Amserlen gweithgarwch dair-blynedd

	Mehefin 2006	Medi 2006	Rhagfyr 2006	Mawrth 2007	Mehefin 2007	Medi 2007	Rhagfyr 2007	Mawrth 2008	Mehefin 2008	Medi 2008	Rhagfyr 2008	Mawrth 2009
Yr Arolwg Teithwyr Cenedlaethol	→											
Ail-dendro'r Arolwg Teithwyr Cenedlaethol	→											
Prosiectau ymchwil ac ymgynghori penodol	→											
Costau teithio	→			→								
Manyleb Allbwn Lefel Uwch– Lloegr	→							→	→			
Manyleb Allbwn Lefel Uwch– yr Alban	→							→	→			
Strategaethau Defnyddio Llwybrau	→											
Masnachfreintiau	→											
Newid Trenau Cyflym	→											
Cyngor ac eiriolaeth i gwsmeriaid	→											
Gwelliannau penodol i wasanaethau	→											

Allwedd



Gweithgarwch o bwys



Peth cyfraniad

Cynllun Corfforaethol 2006 – 2009



Atodiad D – Mesurau a thargedau'r Cynllun Corfforaethol

Mesur	Diffiniad	Targedau		
		2006/07	2007/08	2008/09
Amcan 1 – Deall anghenion a phrofiadau teithwyr rheilffordd				
Ymgynghori ag o leiaf 50,000 o deithwyr drwy'r Arolwg Teithwyr Cenedlaethol bob blwyddyn Cyhoeddi'r canlyniadau ddwywaith y flwyddyn, ym mis Ionawr a mis Gorffennaf	<ul style="list-style-type: none"> Ymgynghori ag o leiaf 50,000 o deithwyr drwy'r Arolwg Teithwyr Cenedlaethol bob blwyddyn Cyhoeddi'r canlyniadau ddwywaith y flwyddyn, ym mis Ionawr a mis Gorffennaf 	50,000 Cytunwyd	50,000 Cytunwyd	50,000 Cytunwyd
Ymgymryd â nifer o brosiectau ymchwil wedi'u targedu er mwyn ategu blaenoriaethau'r sefydliad	Nifer y prosiectau ymchwil wedi'u targedu sy'n seiliedig ar flaenoriaethau yn y cynllun busnes blynyddol	2	2	2
Nifer y teithwyr yr ymgysylltir â hwy drwy ymgynghori a gweithgareddau eraill	Cyfanswm y teithwyr yr ymgysylltir â hwy, yn ystod y flwyddyn ariannol, drwy: <ul style="list-style-type: none"> ymgyngoriad/au cynadleddau/gweithdai y rhyngrwyd digwyddiadau mewn gorsafoedd a digwyddiadau teithwyr-ganolog eraill 	20,000	20,000	20,000
Amcan 2 – Sicrhau gwelliannau cyffyrddadwy a mesuradwy i deithwyr rheilffordd				
Nifer y gwelliannau mesuradwy i deithwyr rheilffordd	Gwelliannau a sicrhau gan Passenger Focus yn genedlaethol, yn rhanbarthol neu'n lleol. Gall hyn ymwneud yn benodol â llwybr, cwmni trên, gorsaf, gweithio gyda Network Rail neu'r Gymdeithas Cwmnïau Trên. Dyma'r meysydd a gynhwysir (ond nid yw'n gyfyngedig i'r rhain): <ul style="list-style-type: none"> costau teithio a thocynnau anabledd a hygyrchedd mynediad i'r rhwydwaith gwella gorsafoedd gwella gwasanaethau trên Safon gwybodaeth 	100	100	100
Amcan 3 – Grymuso teithwyr rheilffordd gyda gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth				

Cynllun Corfforaethol 2006 – 2009



Cynnydd blynyddol yng nghanran y teithwyr sy'n fodlon ar sut mae Passenger Focus yn ymdrin â chwynion	Cynyddu canran y teithwyr rheilffordd sy'n fodlon/yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir gan Passenger Focus wrth ddelio â chwynion apêl. (nid bodlondeb ar ganlyniad cwyn apêl)	+5% i 65%	+5% i 70%	+5% i 75%
Cynnydd blynyddol yng nghanran y teithwyr sy'n fodlon ar y cyngor a ddarperir gan Passenger Focus*	Cynnydd yng nghanran y teithwyr rheilffordd sy'n fodlon/yn fodlon iawn ar y cyngor a ddarperir gan Passenger Focus, o'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • canolfan alwadau • cyngor i ddefnyddwyr • y wefan 	-	-	-
Amcan 4 – Dylanwadu ar benderfyniadau mawr, tymor-hir sy'n effeithio ar deithwyr rheilffordd				
Gwella'r gwelliant blynyddol ym marn rhanddeiliaid ynghylch dylanwad Passenger Focus ar gael y 'ddêl orau i deithwyr rheilffordd'	Gwelliannau ym marn rhanddeiliaid am Passenger Focus o ran <ul style="list-style-type: none"> • dylanwad cyffredinol • credadwyaeth • effeithlondeb • effaith • gwerth am arian 			
Amcan 5 – Bod yn weladwy, yn hygyrch ac yn ddealladwy i deithwyr rheilffordd a rhanddeiliaid				
I deithwyr fod o'r farn ei bod yn hawdd/hawdd iawn cysylltu â Passenger Focus a dod o hyd i wybodaeth amdano*	Canran y cysylltiadau sydd o'r farn ei bod yn hawdd/hawdd iawn cysylltu â Passenger Focus a dod o hyd i wybodaeth amdano	-	-	-

Noder

* Gosodir y targedau i'r mesuriadau hyn ar gyfer 2007-08 a 2008-09 yn sgil sefydlu man cychwyn yn 2006-07.

Caiff pob targed ei adolygu ar gyfer 2007-08 a 2008-09 yn sgil

- sefydlu man cychwyn yn 2006-07
- adolygu perfformiad alldro yn 2006-07
- blaenoriaethau a gofyniadau busnes ar gyfer 2007-08 a 2008-09.

Cynllun Corfforaethol 2006 – 2009

Atodiad E – Rhestr o ymgynghoreion ac ymatebwyr

Rhestr o ymgynghoreion

Grwpiau Teithwyr

- Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl
- East Midlands Public Transport Users Forum
- Passenger Transport Executive Group
- North West Public Transport Users Forum
- Railfuture
- Ricability
- Soroptomist International South East England
- South West Public Transport Users Forum
- Transport 2000

Rheolyddion

- Y Swyddfa Masnachu Teg
- Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd
- Ofgem

Y Senedd

- Y Pwyllgor Dethol ar Drafnidiaeth

Asiantaethau rhanbarthol a llywodraeth leol

- Advantage West Midlands
- East Midlands Development Agency
- East of England Development Agency
- Awdurdod Llundain Fwyaf
- Greater Manchester Passenger Transport Executive
- Merseytravel
- Nexus
- North West Development Agency
- Northern Way
- One NorthEast
- South East England Development Agency
- South West Regional Development Agency
- South Yorkshire Passenger Transport Executive
- Strathclyde Passenger Transport Executive
- Transport for London
- West Midlands Passenger Transport Executive
- West Yorkshire Passenger Transport Executive
- Yorkshire Forward

Y Llywodraeth

- Yr Adran dros Drafnidiaeth
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Trysorlys ei Mawrhydi
- Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
- Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog
- Uned Cyflenwi'r Prif Weinidog
- Senedd yr Alban
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Transport Scotland
- Y Bwrdd Safonau Diogelwch Rheilffordd
- Awdurdod Rheilffyrdd Strategol

Sefydliadau defnyddwyr

- Y Cyngor Defnyddwyr Cludiant Awyr
- Y Cyngor Defnyddwyr Dwr
- Consumer Direct
- Energywatch
- London TravelWatch
- Postwatch
- Which?

Y Diwydiant Rheilffordd

- Angel Trains
- Arriva Trains Wales
- Cymdeithas y Partneriaethau Rheilffordd Cymunedol
- Cymdeithas y Cwmnïau Trên
- Central Trains
- Chiltern Railways
- Eurostar
- English, Welsh and Scottish Railway
- First Group
- First Capital Connect
- First Great Western
- First ScotRail
- Gatwick Express
- Go-Ahead Group
- Great Northern Eastern Railway
- Heathrow Express
- HSBC Rail (UK) Ltd
- Hull Trains
- London Lines
- Merseyrail

Cynllun Corfforaethol 2006 – 2009



- Midland Mainline
- National Express
- Ned Railways
- Network Rail
- Northern Rail
- One
- Porterbrook
- Rail Freight Group
- Railway Forum
- Pwyllgor Cynghorol ar y Diwydiant Rheilffordd
- Serco Integrated Transport
- Southeastern Trains
- South Western Trains
- Southern
- Thameslink Rail
- Transpennine Express
- Virgin Trains
- Wessex Trains

Trade Unions

- *ASLEF*
- *RMT*
- *TSSA*

Cyrff eraill

- Heddlu Trafnidiaeth Prydain
- CBI
- First Class Partnerships
- Y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus
- Rhwydweithiau Cludiant Teithwyr
- Ned Railways
- Network Rail
- Northern Rail
- One
- Porterbrook
- Rail Freight Group
- Railway Forum
- Pwyllgor Cynghorol ar y Diwydiant Rheilffordd
- Serco Integrated transport
- South Eastern Trains
- South Western Trains
- Southern
- Thameslink Rail
- TransPennine Express
- Virgin Trains
- Wessex Trains

Y Cyfryngau

- Rail Magazine
- Transport Times

Cynllun Corfforaethol 2006 – 2009




Ymatebwyr i'r ymgynghoriad

- Arriva Trains Wales
- Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain
- Chiltern Railways
- Yr Adran dros Drafnidiaeth
- Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl
- First Capital Connect
- Great North Eastern Railway
- First Great Western
- London Lines
- Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
- Network Rail
- Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd
- Railfuture
- Soroptimist International of South East England
- South West Trains
- Southern
- Strathclyde Passenger Transport Executive
- TransPennine Express
- Transport for London – London Rail
- Virgin Trains
- Virgin West Coast

Sut i gysylltu â ni

Os hoffech gael copi o'r cynllun hwn yn Braille, print bras, tâp clywedol, neu mewn unrhyw iaith arall, cysylltwch â ni.

	www.passengerfocus.org.uk
	08453 022 022
	info@passengerfocus.org.uk
	Passenger Focus Freepost WA1521 Warrington WA4 6GP



© 2006 Passenger Focus

Freepost WA1521
Warrington
WA4 6GP

08453 022 022
www.passengerfocus.org.uk
info@passengerfocus.org.uk

Passenger Focus is the operating
name of the Rail Passengers Council